**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

Llywodraeth Cymru

7 Mai 2019

Annwyl Kirsty,

Diolch am eich ymateb i'm hymholiad ynghylch addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion.

Ers imi anfon fy llythyr, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cwricwlwm i Gymru 2022. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar y cwricwlwm mewn rhagor o fanylder yng nghyd-destun ein hymchwiliad yn ystod yr wythnosau nesaf. Diolch am drefnu bod eich swyddogion ar gael i roi gwybodaeth i ni am y cwricwlwm drafft newydd.

Fel rhan o'n hymchwiliad, gwnaethom hefyd ysgrifennu at Estyn i ofyn pa wybodaeth sydd ganddo. Cawsom grynodeb ganddo o dystiolaeth o'i adolygiad thematig o arfer da yn y dyniaethau ac enghreifftiau o'i waith arolygu.

Mewn ymateb i'n cwestiwn ar ddichonoldeb cynnal adolygiad thematig o'r pwnc hwn, dywedodd Meilyr Rowlands:

> 'Byddwn yn croesawu'r cyfle i gynnal adolygiad thematig mwy cynhwysfawr o addysgu hanes a diwylliant Cymru trwy ein cylch gwaith blynyddol. Gwyddoch fod y Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu ataf yn ddiweddar yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer adolygiadau thematig yn ein cylch gwaith blynyddol ar gyfer 2019-2020. Mae lle i gynnal un adolygiad ychwanegol bob blwyddyn. Efallai yr hoffech drafod gyda'r Gweinidog p'un a ellid cytuno ar y gwaith hwn fel eitem ychwanegol eleni. Fel arall, gellid ei ystyried fel rhan o gylch gwaith blynyddol y flwyddyn nesaf i Estyn.'

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o addysgu hanes a diwylliant Cymru fel rhan o'r cylch gorchwyl ar gyfer 2019-20. Rydym yn awyddus i ddeall nid yn unig sut mae dysgwyr yn ymgysylltu â hanes eu gwlad ond i ba raddau y caiff ei addysgu a sut y caiff hyn ei asesu.

Gofynnaf ichi ymateb i'r cais hwn erbyn 31 Mai er mwyn i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhanddeiliaid a alwodd am ymchwiliad i'r pwnc hwn.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/KW/1784/19

Bethan Sayed AC
Y Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

23 Mai 2019


Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mai ynghylch gwaith Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu sydd ar y gweill ar ei ymchwiliad i addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion.

Rydych yn gofyn imi ystyried gosod y dasg ar Estyn i ymgymryd ag adolygiad thematig ar addysgu yn y maes pwnc hwn, fel rhan o gylch gwaith blynyddol 2019-20.

Fel y'i nodwyd yn eich llythyr, mae'n wir bod lle am adolygiad ychwanegol ar bwnc dewisol i'w gynnal yn 2019-20. Nodaf sylwadau'r Prif Arolygydd mewn perthynas â'r mater hwn. Byddaf yn trafod y mater gyda'r Prif Arolygydd ac yn cysylltu â chi â'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.